CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
LLANGERNYW COMMUNITY COUNCIL

Cynhaliwyd Cyfarfod o'r Cyngor Cymuned Nos Fawrth Hydref 24ain 2017 am 7.30 yr hwyr yng Nghanolfan Pandy Tudur

Ymddiheuriadau: Elen Edwards, Cyng Garffild Lewis

Presennol: Gwyn Williams (Cadeirydd), Einir Williams, Diane M Roberts, R Emlyn Williams, Clwyd Roberts, Ann O Vaughan, Gwynfor Davies (yn hwyrach), Gerallt Evans (yn hwyrach) a'r Clerc

72.1 DATGAN CYSYLLTIAD – rhoddwyd cyfle i'r aelodau ddatgan cysylltiad ag eitem ar yr Agenda.

72.2 COFNODION – edrychwyd ar gofnodion cyfarfod 3ydd Hydref 2017 a PHENDERFYNWYD yn unfrydol eu bod yn gywir.

72.3 MATERION YN CODI O'R COFNODION
72.3.1 CYFARFOD GYDA MR GWYNNE JONES, CARTREFI CONWY – derbyniwyd ymddiheuriad didwyll gan Mr Gwynne Jones na fu'n bosibl iddo fynychu'r cyfarfod ar y munud olaf. Derbyniwyd rhai dyddiadau posibl ganddo a PHENDERFYNWYD i gyfarfod ar nos Lun Tachwedd 20fed neu Nos Fercher Tachwedd 15fed.
72.3.2 BAND EANG GWYTHERIN (71.3.3) – esboniodd Emlyn Williams iddynt gael cyfarfod â Geraint Strello, BT yng Ngwytherin a bod cadarnhad y bydd band eang cyflym yn dod i'r pentref cyn diwedd y flwyddyn; anheddau o fewn 2km i'r bocs fydd yn derbyn y band cyflym ac maent am ymchwilio i weld beth fydd yr opsiynau yn dilyn hynny.
Cyrhaeddodd Gwynfor Davies y cyfarfod.
72.3.3 SWYDD Y CLERC (71.12) – awgrymwyd i gysylltu a Chlerc Cyngor Llansannan i weld a oedd ganddo ddiddordeb yn y gwaith.

72.4 MATERION FFYRDD AC AMGYLCHEDD
72.4.1 BLWCH BLODAU GER STAD FEDWEN ARIAN – angen sôn eto wrth yr Adran Cynnal a Chadw bod contractwr wedi malu'r blwch.
72.4.2 ARWYDD STAD FEDWEN ARIAN – cafwyd ateb i'n cais yn dweud y bydd yn cael ei adnewyddu pan fydd cyllid ar gael.
Cyrhaeddodd Gerallt Evans y cyfarfod.
72.4.3 CYFARFOD SAFLE ADRAN TRAFFIG – roedd swyddog Iwan Ellis yn awyddus i gynnal cyfarfod. Cynigiwyd dydd Iau Tachwedd 2il am 9 o'r gloch. Byddai Clwyd Roberts, Diane Roberts a Gerallt Evans yn mynychu.

72.5 MATERION CYNLLUNIO
Cais Cynllunio Rhif 0/44437 Codi sied beiriannau newydd yn Pentre Wern, Llangernyw gan Mr Dewi Williams – PENDERFYNWYD yn unfrydol i gefnogi'r cais.

72.6 CWRS CYNLLUNIO CYMUNEDOL – cafwyd adroddiad o'r cwrs, a gynhaliwyd gan Un Llais yn Abergele, gan Diane Roberts. Roedd yn siomedig gyda'r cwrs ac oedd drosodd mewn

amser byr. Teimlai y basai wedi bod yn ddigon i drafod y pwnc mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Sirol. Diolchwyd i Diane Roberts am fynychu.

72.7 PWYLLGOR ARDAL UN LLAIS CYMRU – cafwyd adroddiad gan Diane Roberts o'r cyfarfod ym Mhenmaenmawr. Cafwyd cyflwyniad gan Carol Williams o Gyngor Iechyd y Gymuned. Hefyd etholwyd Berwyn Evans, Llansannan ar y Cyngor Cenedlaethol. Diolchwyd i Diane am fynychu'r pwyllgorau.

72.8 BLYCHAU FFÔN BT – nid oedd y Clerc wedi cael gwybodaeth ynglyn â phlwm yn y paent coch a PHENDERFYNWYD i'r Cadeirydd a Diane Roberts godi'r mater gyda Llywodraethwyr yr Ysgol. Mae Meira Woosnam, Conwy Cynhaliol yn awyddus i wybod beth yw'n bwriadau gyda'r blychau ffôn.

72.9 AROLWG 2018 O ETHOLAETHAU SENEDDOL YNG NGHYMRU – CYNIGION DIWYGIEDIG – y Clerc i anfon y wybodaeth i'r aelodau.

72.10 YMGYNGHORIAD BYSIAU CONWY – angen ei lenwi erbyn 10fed Tachwedd.

72.11 CLUDIANT CEFN GWLAD – derbyniwyd llythyr gan y Cyngh Garffild Lewis ynglŷn a phroblemau cludiant yng nghefn gwlad (ar ran un o drigolion Llangernyw). Roedd wedi esbonio bod arolwg cludiant yn y Sir ar hyn o bryd ond yn gofyn i'r Cyngor Cymuned drafod cael ateb mwy lleol i'r broblem o deithio o'r pentref i drefi a phentrefi cyfagos. Wedi trafodaeth ynglŷn a gwasanaethau o'r fath mewn ardaloedd eraill teimlwyd mai cyfrifoldeb y Cyngor Sirol oedd trefnu cludiant fel hyn.

72.12 CYFLEOEDD ARIANNU A GWAITH CONWY CYNHALIOL – roedd Meira Woosnam yn awyddus i ddod i gyfarfod y Cyngor a PHENDERFYNWYD ei gwadd i drafod y gwaith.

72.13 MATERION LLEOL
72.13.1. Angen glanhau arwydd am Pandy a Gwytherin yn Nglan Rhyd.
72.13.2 Angen gofyn i Scottish Power am gael y trydan nôl i Arhosfan Bws a thoiledau Gwytherin – gan fod bwriad i osod Diffibrilydd yno.
72.13.3 Gwrych wedi gordyfu a damwain wedi bod yno – cyffordd rhwng Graig Bach a Pen Fron, Gwytherin.
72.13.4 Wal adeilad yn Tŷ'r Felin Isa, Gwytherin yn bolio – Adran Gwarchod y Cyhoedd.
72.13.5 Diffyg golau ger mynedfa Ysgol Bro Cernyw.
72.13.6 Dŵr ger pont Gell a'r ffordd wedi sigo eto.
72.13.7 Angen gofyn a fedrant symud arwydd 30mya i'r gogledd o Langernyw yn nes at Lanfair TH oherwydd bod stad newydd o dai yno.
72.13.8 Dŵr yn hel ar draws y ffordd i Nant Mawr A548.
72.13.9 Brigau/canghennau wedi tyfu eto ac yn taro drychau cerbydau – rhwng Llangernyw a Llanfair TH.
72.13.10 Ceir yn bachu gwaelod wrth droi i fyny am allt Waterloo.
72.13.11 Hysbyswyd y Cyngor y bydd ffordd Buarth Cerrig yn cau am gyfnod rhwng 11eg a 15fed o Ragfyr ar gyfer gwaith BT.
72.13.12 Cafwyd gwybodaeth am gyrsiau hyfforddiant Un Llais Cymru.
72.13.13 Cafwyd cais i drafod cynllunio cymunedol wrth drafod y Gyllideb.
72.13.14 Ôl-daliad y Clerc – i'w roi ar yr Agenda nesaf.
72.13.15 Gan mae'n bosib mai hwn fyddai cyfarfod olaf y Clerc diolchodd y Cadeirydd iddi am ei gwaith dros y blynyddoedd.

72.14 BILIAU

Un Llais Cymru (Cwrs Cynllunio Cymunedol yn cynnwys Bwrsari)	£20
Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilio Cyfrifon)	£150.45

Daeth y cyfarfod i ben am 9.20 yr hwyr.

Cymeradwywyd y Cofnodion .G A Jones..... Dyddiad ...20/11/17.....

A meeting of the Community Council was held on Tuesday October 24th 2017 at 7:30pm at the Pandy Tudur Centre

Apologies: Elen Edwards, Cllr Garffild Lewis

Present: Gwyn Williams (Chair), Einir Williams, Diane M Roberts, R Emlyn Williams, Clwyd Roberts, Ann O Vaughan, Gwynfor Davies (later), Gerallt Evans (later) and Clerk.

72.1 DECLARATIONS OF INTEREST - Members were given an opportunity to declare an interest on an item on the Agenda.

72.2 MINUTES - the minutes of the meeting held on October 3rd 2017 were looked at and it was unanimously RESOLVED that they were correct.

72.3 MATTERS ARISING FROM THE MINUTES
72.3.1 MEETING WITH MR GWYNNE JONES, CARTREFI CONWY - sincere apologies were received from Mr Gwynne Jones that he was unable to attend the meeting at the last minute. Possible dates were received from him and it was RESOLVED to meet on either Monday evening November 20th or Wednesday evening November 15th.
72.3.2 - GWYTHERIN BROADBAND (71.3.3) - Emlyn Williams explained that they had a meeting with Geraint Strello, BT in Gwytherin and that confirmation was given that fast broadband will be coming to the village before the end of the year; dwellings within 2km of the box will receive fast broadband and they will look into the options that will follow.
Gwynfor Davies arrived at the meeting.
72.3.3 CLERK'S POSITION (71.12) - it was suggested to contact Llansannan Council's Clerk to see whether he would be interested in the work.

72.4 ENVIRONMENTAL AND ROAD MATTERS
72.4.1 FLOWER BOX NEAR FEDWEN ARIAN ESTATE - need to mention once again to the Maintenance Department that a contractor has broken the box.
72.4.2 FEDWEN ARIAN ESTATE'S SIGN - a response to our request was received stating it will be renewed when finance becomes available.
Gerallt Evans arrived at the meeting.
72.4.3 TRAFFIC DEPARTMENT SITE MEETING - officer Iwan Ellis was keen to hold a meeting. Date and time of Thursday 2nd November at 9 o clock was proposed. Clwyd Roberts, Diane Roberts and Gerallt Evans would attend.

72.5 PLANNING MATTERS
Planning Application NO 0/44437 Erection of new machinery shed at Pentre Wern, Llangernyw by Mr Dewi Williams - RESOLVED unanimously to support the application.

72.6 COMMUNITY PLANNING COURSE - Diane Roberts gave a report on the course held by One Voice Wales. She was disappointed with the course that didn't last very long. She felt it would have sufficed to discuss the matter in a meeting of the County Council. Diane Roberts was thanked for attending the course.

72.7 ONE VOICE WALES AREA COMMITTEE - Diane Roberts gave a report on the meeting held in Penmaenmawr. Carol Williams from Community Health Council gave a presentation. Also, Berwyn Evans from Llansannan was elected on the National Council. Diane was thanked for attending the committees.

72.8 BT PHONE KIOSKS - the Clerk had not received information about lead in the red paint and it was RESOLVED for the Chair and Diane Roberts to raise the issue with the School Governors. Meira Woosnam, Conwy Cynhaliol, is keen to know of our intentions with the phone kiosks.

72.9 2018 REVIEW OF PARLIAMENTARY CONSITUENCIES IN WALES - REVISED PROPOSALS - Clerk to send the information to the members.

72.10 CONWY BUSES CONSULTATION - needs to be completed by November 10th.

72.11 TRANSPORT IN RURAL AREAS - a letter was received by Cllr Garffild Lewis regarding transport issues in rural areas (on behalf of one of Llangernyw's residents). He explained a transport review is ongoing in the County at present but asked the Community Council to discuss finding a more local solution to the problem of travelling from the village to neighbouring towns and villages. After a discussion about similar services in other areas, the Council felt it was the responsibility of the County Council to arrange transport as such.

72.12 FUNDING OPPORTUNITIES AND THE WORK OF CONWY CYNHALIOL - Meira Woosnam was keen to come to a meeting of the Community Council and it was RESOLVED to invite her to discuss the work.

72.13 LOCAL MATTERS
72.13.1.Signs at Glan Rhyd for Pandy and Gwytherin need to be cleaned.
72.13.2 Need to ask Scottish Power to get the electricity back in the Bus Shelter and toilets in Gwytherin - the aim is to install a defibrillator there.
72.13.3 Hedge has overgrown and has caused an accident - junction between Graig Bach and Pen Fron, Gwytherin.
72.13.4 Building wall at Tŷ'r Felin Isa, Gwytherin is bulging - Public Protection Department.
72.13.5 Lack of lighting near the entrance to Ysgol Bro Cernyw.
72.13.6 Water near pont Gell and the road has sagged once again.
72.13.7 Need to ask whether they can move the 30mpa sign to the north of Llangernyw, towards Llanfair TH because of the new estate of houses.
72.13.8 Water is gathering across the road towards Nant Mawr on the A548.
72.13.9 Branches/twigs have grown once again and are hitting vehicle mirrors - between Llangernyw and Llanfair TH.
72.13.10 Cars are clipping the bottom as they turn up towards Waterloo hill.

72.13.11 It was notified that Buarth Cerrig road will be closed for a period between the 11th and 15th of December for BT works.
72.13.12 Information was received about One Voice Wales' training courses.
72.13.13 A request was received to discuss community planning as the Budget is discussed.
72.13.14 Clerk's back-payment - to be included on next month's Agenda.
72.13.15 As it may be the Clerk's last meeting the Chair thanked her for her work over the years.
72.14 BILLS

One Voice Wales (Community Planning Course including bursary)	£20
Wales Audit Office (Accounts Audit)	£150.45

The meeting concluded at 9:20pm.

Minutes Approved ..G A Jones..... Date ..20/11/17.....